| Cyngor Sir CEREDIGION County Council | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Cymunedau Ffyniannus Pwyllgor Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 15 Gorffennaf 2021 |
| **LLEOLIAD:** | Teams |
| **TEITL:** | Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cael cymeradwyaeth ar gyfer Cod Ymarfer newydd Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Er mwyn cydymffurfio â'r *Cod Ymarfer Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda* a gyhoeddwyd yn 2016, mae'n rhaid adolygu a diweddaru Cod Ymarfer presennol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Archwiliadau Diogelwch Priffyrdd o 2010. |

**CEFNDIR:**

Mae Cod Ymarfer Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb ('Cod Ymarfer') yn egluro'r polisi a'r safon ar gyfer cynnal archwiliadau ar y rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig. Mae'n ffurfio rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd cyffredinol a'r Atodiad C sydd ynddo – 'Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd' ac fe'i cynlluniwyd i'w ddefnyddio gan staff sy'n cynnal archwiliadau ar briffyrdd. Mae'n nodi pa mor aml y dylid cynnal archwiliadau a hefyd lefelau ymyrraeth ar gyfer y rhan fwyaf o amgylchiadau (er y bydd disgwyl i staff archwilio bob amser ddefnyddio'u barn a'u crebwyll). Prif nod y Cod yw sicrhau bod archwiliadau, diffygion a manylion atgyweirio a awgrymir yn cael eu hasesu a'u cofnodi'n gywir, yn ogystal â'r cofnodi dilynol ar yr ymateb a'r atgyweiriadau gwirioneddol a wnaed.

Yn 2016, cyhoeddodd yr UK Roads Liaison Group *God Ymarfer Seilwaith Priffyrdd wedi'i reoli'n dda*, a hwn yn cymryd lle *Cod Ymarfer Priffyrdd wedi'u Rheoli'n Dda ar gyfer Rheoli Cynnal a Chadw Priffyrdd* dyddiedig Gorffennaf 2005. Er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r cod newydd, bu'n rhaid adolygu a diweddaru Cod Ymarfer Cyngor Sir Ceredigion. Egwyddor sylfaenol y cod yw y bydd Awdurdodau Priffyrdd yn mabwysiadu dull seiliedig ar risg o reoli asedau yn unol ag anghenion, blaenoriaethau a fforddiadwyedd lleol.

Mae Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSSW) wedi datblygu methodoleg i roi dull newydd cyson ledled y wlad i reoli priffyrdd lleol yn unol â'r cod newydd, a mabwysiadwyd y fethodoleg honno ar gyfer yr adolygiad.

**Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn perfformio'n dda yn ei ddyletswydd i gynnal ased y briffordd. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn lefel yr adnoddau sydd ar gael i Awdurdodau Priffyrdd yn

golygu bod y ffocws ar ymateb i ddiffygion/namau diogelwch wedi atal neilltuo adnoddau i weithgareddau cynnal a chadw a fyddai'n lleihau'r diffygion hyn. Mae'r anallu i raglennu gwaith yn arwain at aneffeithlonrwydd ac mae perygl y byddai'r anallu cynyddol i reoli atgyweiriadau yn arwain at ddirywiad yng nghyflwr y rhwydwaith.

Mae'r cod newydd yn mynd i'r afael â hyn trwy dargedu'r meysydd sydd â'r risg uchaf. Mae'n gwneud hyn trwy ganolbwyntio ar ddau brif faes: yn gyntaf amlder cynnal archwiliadau, ac yn ail wrth bennu trothwy ymyrraeth priodol. Y canlyniad fydd y gallu i ailbennu adnoddau i waith cynnal a chadw yn hytrach nag atgyweirio brys.

**BETH MAE AWDURDODAU ERAILL YN EI WNEUD:**

Datblygodd Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSSW) ei fethodoleg mewn perthynas â'r Cod Ymarfer newydd mewn ymgynghoriad â Chwmnïau Yswiriant ac Awdurdodau Priffyrdd ledled Cymru gyda'r bwriad o greu dull unedig a chyson wrth ddehongli a gweithredu.

Mae holl Awdurdodau Cymru wedi mabwysiadu'r cod.

**BETH MAE'R CYNGOR ANGEN EI WNEUD:**

Unwaith y bydd y cod wedi'i gymeradwyo, bydd angen creu trefniadau archwilio newydd. Bydd yn rhaid diweddaru Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Gwasanaeth a'r System Rheoli Asedau a diwygio adroddiadau'r system iddynt fod yn briodol i adlewyrchu gofynion y cod newydd.

Bydd angen hyfforddiant ar gyfer Arolygwyr Priffyrdd, Uwch-arolygwyr a Pheirianwyr.

Bydd angen rhoi prosesau busnes newydd ar waith i gynorthwyo â chrynhoi triniaethau mewn rhaglenni gwaith cynnal a chadw sydd wedi'u cynllunio i fod yn gylchol/ataliol ac felly yn fwy cost-effeithiol megis glanhau gyli, trin ffosydd, clytio ac ati.

Bydd rhaid datblygu cefnogaeth gan yr Arolygiaeth ar gyfer gweithgarwch gwaith stryd, gorfodi a swyddogaethau eraill ac mae'r cynigion ailstrwythuro sydd ar waith yn y Gwasanaethau Priffyrdd yn mynd i'r afael â hyn.

Mae'n holl bwysig fod cyfrif traffig cerbydau a cherddwyr yn digwydd ar draws y rhwydwaith a bod y rhain yn cael eu hymgorffori wrth adolygu'r Cod Ymarfer yn rheolaidd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nac oes, esboniwch pam.** | | Oes |
| | ***Crynodeb:*** | | |
| | **Hirdymor:** | Mae'r Cod Ymarfer newydd yn darparu dull seiliedig ar risg o gynnal Archwiliadau ar Ddiogelwch Priffyrdd ac yn cynnig cyfle i wneud y gorau o adnoddau trwy flaenoriaethu a chynllunio gwaith cynnal a | |

| | | |
|---|---|---|
| | | chadw. |
| | **Integreiddio:** | Bydd y Cod Ymarfer newydd yn gwella cyflwr y briffordd fabwysiedig yng Ngheredigion ac yn cael effaith gadarnhaol ar ei phobl, ei heconomi, ei hamgylchedd a'i diwylliant. |
| | **Cydweithio:** | Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru, cwmnïau yswiriant ac Awdurdodau Priffyrdd er mwyn gweithredu'r Cod newydd yn llwyddiannus. |
| | **Cynnwys:** | Anogir rhanddeiliaid i barhau i fod yn rhan trwy gyfarfodydd ac adolygu rheolaidd, a'r rheiny yn cael eu llywio gan yr adborth a dderbynnir. |
| | **Atal:** | Mae'r fethodoleg y tu ôl i'r cod yn defnyddio data sy'n ymwneud â'r risg o ddifrod i eiddo neu niwed i bobl, ac yn argymell ffordd o wneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael er mwyn lliniaru hyn yn effeithiol. |

**ARGYMHELLION:**

**Argymhell bod Cabinet yn cymeradwyo'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

Newid ffocws ein hadnoddau, cryfhau ein gwaith cynnal a chadw, a gwella ein gallu i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol statudol fel yr amlinellir yn Adran 41 Deddf Priffyrdd 1980 a darparu amddiffyniad yn rhinwedd Adran 58 Deddf Priffyrdd 1980 trwy ddull unedig Cymru gyfan.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Phil Jones |
| **Swydd:** | Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Priffyrdd |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 3/6/2021 |
| **Acronymau:** | |